sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Dyfarnu trwydded amlblecs radio graddfa fach: Abertawe

## Cefndir

Mae Ofcom wedi penderfynu dyfarnu trwydded amlblecs radio graddfa fach newydd ar gyfer Abertawe i Swansea DAB Limited ('Swansea DAB").

Wrth ystyried y ceisiadau y mae'n eu derbyn am drwyddedau amlblecs radio graddfa fach, mae'n ofynnol i Ofcom ystyried pob un o'r meini prawf statudol a nodir yn adran 51(2) Deddf Darlledu 1996 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Amlblecs Radio Graddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. cwmpas yr ardal (o fewn yr ardal neu'r lleoliad a nodir yn yr hysbysiad gan Ofcom yn gwahodd ceisiadau) y bwriedir darparu gwasanaeth iddi gan yr ymgeisydd yn y cynllun technegol a gyflwynwyd yn ei gais; (adran 51(2)(a))

2. gallu'r ymgeisydd i sefydlu'r gwasanaeth arfaethedig; (adran 51(2)(c))

3. dymunoldeb dyfarnu'r drwydded i ymgeisydd sydd:
    a. yn berson sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r lleoliad hwnnw, neu
    b. â pherson fel cyfranogwr sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r lleoliad; (adran 51(2)(ca))

4. i ba raddau y ceir tystiolaeth, ymhlith personau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol yn yr ardal neu'r lleoliad hwnnw, fod galw am, neu gefnogaeth dros, ddarparu'r gwasanaeth arfaethedig; (adran 51(2)(f)) a

5. p'un a yw'r ymgeisydd, wrth gontractio neu gynnig contractio gyda phersonau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol, wedi gweithredu mewn modd y bwriedir iddo sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny. (adran 51(2)(g)).

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn graddio'r gofynion hyn yn nhrefn blaenoriaeth, ond mae'n bosib y bydd Ofcom yn gweld bod un neu fwy o'r meini prawf yn arbennig o bwysig o ystyried nodweddion y drwydded sydd i'w dyfarnu a'r ceisiadau a gyflwynwyd ar ei chyfer.

## Asesu ceisiadau

Ar 25 Ionawr 2022, cyhoeddodd Ofcom hysbysiad yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau i ddarparu gwasanaethau amlblecs radio graddfa fach mewn sawl ardal, gan gynnwys Abertawe.

Erbyn y dyddiad cau o 25 Ebrill 2022, roedd Ofcom wedi derbyn dau gais ar gyfer yr ardal hon. Roedd y rhain gan Swansea DAB Limited ac OnDAB Limited. Roedd copïau o rannau anghyfrinachol y ceisiadau ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt ar wefan Ofcom, a gwahoddwyd sylwadau cyhoeddus yn unol â gofynion adran 50(7), er na derbyniwyd unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r ardal hon.

Asesodd cydweithwyr Ofcom fanylion y ceisiadau, gan gynnwys cynnal asesiadau o'r cynllun technegol y mae'n ofynnol i'w gyflwyno fel rhan o bob cais. Gwnaed y penderfyniad mewn perthynas ag Abertawe gan banel penderfynu yn Ofcom mewn cyfarfod ar 11 Awst 2022. Buont yn ystyried y ceisiadau a chyngor proffesiynol gan gydweithwyr Ofcom yn ofalus, ac yn cymhwyso'r meini prawf statudol wrth ddod i'w penderfyniad ynghylch a ddylid dyfarnu trwydded ac i bwy. Rhoddir crynodeb o'r rhesymau dros eu penderfyniad i ddyfarnu'r drwydded i Swansea DAB Limited (‘Swansea DAB’) isod.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(a), cynigiodd yr ymgeisydd llwyddiannus i ddefnyddio un trawsyrrydd i ddarparu ei wasanaeth. Mae cyfrifiadau Ofcom yn nodi i hyn olygu y byddai modd i ychydig o dan 88% o'r boblogaeth oedolion yn ardal y drwydded a hysbysebwyd dderbyn y gwasanaeth. Nododd ein rhagfynegiadau o ddarpariaeth y byddai'r gwasanaethau amlblecs radio graddfa fach arfaethedig ar gael i lai na 40% o'r boblogaeth yn ardal drwydded y gwasanaeth amlblecs radio lleol i Abertawe sy'n gorgyffwrdd ag ef, ac y byddai gorlif y signal y tu allan i'r ardal a hysbysebwyd ymhell o dan 30% o boblogaeth yr ardal a hysbysebwyd. Gan hynny, ni fyddai angen unrhyw fesurau lliniaru i gydymffurfio â'r trothwyon hyn. Bu i Ofcom hefyd ystyried bod y risg o dorri tyllau ac ymyriant yn isel, ac nad oedd yn debygol y byddai angen unrhyw fesurau lliniaru i ymdrin â'r fath faterion ychwaith. Ystyriodd y rhai a wnaeth y penderfyniad ei fod yn arwyddocaol, o ganlyniad i leoliad y trawsyrrydd arfaethedig a'r paramedrau trawsyrru arfaethedig, y byddai'n darparu lefel dda iawn o ddarpariaeth yn gyffredinol, ac ar ben hynny y rhagfynegwyd y byddai canolfannau poblogaeth allweddol Abertawe ei hun, Castell-nedd, a Phort Talbot yn derbyn darpariaeth ragorol, gan gyfrannu at apêl y gwasanaeth i ddarlledwyr sy'n dymuno targedu pob un o'r cymunedau hynny heb bocedi sylweddol o ddarpariaeth waeth.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(c), ystyriodd Ofcom gynlluniau ariannol a busnes, cynlluniau technegol, yr amserlen ar gyfer cyflwyno’r ddarpariaeth, a thystiolaeth o arbenigedd a phrofiad perthnasol. Am y rhesymau a nodir uchod, ystyriodd y rhai a wnaeth y penderfyniad fod lleoliad a manylebau'r trawsyrrydd arfaethedig yn bwysig o ran darparu lefel a phatrwm y ddarpariaeth a amcangyfrifwyd. O ystyried yr heriau a fyddai'n bodoli wrth i Swansea DAB efelychu darpariaeth a ragfynegir trwy safle neu safleoedd trawsyrru amgen os na fydd yr un a gynigir ar gael, roedd yn arbennig o bwysig bod cynlluniau ariannol a busnes yn gadarn er mwyn i'r gwasanaeth arfaethedig gael ei sefydlu. Ar y cyfan, ystyriodd Ofcom fod y cynlluniau a'r cyllid yn ddigon datblygedig, a bod gan y personél brofiad digonol, i ddarparu lefel resymol o hyder yng ngallu'r ymgeisydd i sefydlu'r gwasanaeth gyda'r lefel o ddarpariaeth a ragfynegwyd o fewn y cyfnod 18-mis fel y pennir gan y ddeddfwriaeth.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(ca), nododd Ofcom nad oedd Swansea DAB ei hun na'i gyfranogwyr, yn bwriadu darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol ar yr amlblecs. O dan y

ddeddfwriaeth, mae cyfranogiad person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaeth rhaglenni sain ddigidol cymunedol yn nodwedd ddymunol ond ddim yn angenrheidiol ar gyfer ymgeiswyr. Nododd y rhai  a wnaeth y penderfyniad fod Depot Swansea Limited, sydd â chynlluniau i agor lleoliad cerddoriaeth fyw sylweddol fel rhan o adnewyddu Neuadd Albert yn y ddinas, yn gyfranddaliwr yn yr ymgeisydd a bod gwasanaeth C-DSP o'r enw Depot Swansea Radio wedi'i gynnig ar gyfer yr amlblecs. Er hynny, eglurodd yr ymgeisydd y byddai hyn yn cael ei ddarparu gan gwmni hyd braich yn hytrach na chan y cyfranogwr ei hun, felly mae hyn yn cael ei ystyried isod yn hytrach na mewn perthynas ag adran 51(2)(ca).

Mewn perthynas ag adran 51(2)(f), ystyriodd Ofcom dystiolaeth o alw neu gefnogaeth gan bersonau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol (gwasanaethau C-DSP neu DSP) yn yr ardal a hysbysebwyd. Darparodd yr ymgeisydd dystiolaeth o alw a chefnogaeth gan dri darpar ddarparwr gwasanaeth C-DSP. Nododd y rhai a wnaeth y penderfyniad fod un yn wasanaeth analog cymunedol sy'n bodoli eisoes (er yn darparu ar gyfer ardal gyfagos yn hytrach na'r ardal a hysbysebwyd), tra bod y ddau arall yn wasanaethau y cynigiwyd i'w darparu gan ddau o gyfranddalwyr yr ymgeisydd, er nad ydynt yn bodoli eto. Gan hynny, codwyd rhai cwestiynau ynghylch y tebygolrwydd y byddai'r rhain yn cael eu cludo gan yr amlblecs wrth iddo lansio a, chan nodi'r diffyg gwasanaethau radio cymunedol analog yn Abertawe, roedd y rhai a wnaeth y penderfyniad o'r farn y byddai'n bwysig i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio rhwng y dyfarniad a'r lansiad ar ymgysylltu'n rhagweithiol â'r darpar ddarparwyr gwasanaeth C-DSP lleol. Dangosodd yr ymgeisydd ddiddordeb hefyd gan 18 o ddarpar wasanaethau DSP, er eto y dylai'r ymgeisydd, rhwng y dyfarniad a'r lansiad, ymgysylltu'n rhagweithiol â gwasanaethau sydd â ffocws ar Gymru'n gyffredinol ac ar yr ardal a hysbysebwyd yn benodol.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(g) ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, roedd Ofcom yn fodlon bod yr ymgeisydd, wrth gontractio neu gynnig contractio gyda phersonau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol, wedi gweithredu mewn modd y bwriedir iddo sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny. Fel y nodir uchod, roedd y rhai a wnaeth y penderfyniad o'r farn y byddai ymgysylltu rhagweithiol ag ystod o ddarpar ddarparwyr DSP a C-DSP rhwng y dyfarniad a'r lansiad yn bwysig.

Nodir nad yw dyfarnu trwydded yn rhoi'r hawl i'r dyfarnai weithredu pob elfen o'r cynllun technegol a gyflwynwyd i Ofcom fel rhan o'r cais llwyddiannus. Bydd Ofcom yn trin cynigion yn y cynllun hwnnw, ar y sail y gwnaed y dyfarniad arni, fel pethau y mae'r ymgeisydd llwyddiannus wedi ymrwymo i'w cyflawni o fewn y cyfnod 18-mis a ganiateir rhwng y dyfarniad a'r lansiad (yn enwedig y ddarpariaeth a ragfynegir). Fodd bynnag, am resymau cynllunio sbectrwm, mae’n bosib y bydd Ofcom yn mynnu diwygiadau i gynigion rhwng dyfarnu a rhoi’r drwydded.

*Awst 2022*